*Status: This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 3 (Cy. 2)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Ionawr 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *9 Ionawr 2023* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Ionawr 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 62 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**), a pharagraffau 1 a 2(2)(h) o Atodlen 9 iddi, ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Ionawr 2023.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i hysbysiadau galw am dalu sy'n ymwneud â blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023 neu ar ôl hynny, ac a ddyroddir gan awdurdodau bilio Cymru neu ar eu rhan.

### Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017

**2.**—(1) Mae paragraff 1 o Atodlen 2 (nodiadau esboniadol) i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y paragraff o'r enw Gwerth ardrethol, yn lle "2017" rhodder "2023" ac yn lle "2015" rhodder "2021".

(**1**) 1998 p. 41. *Gweler* adran 146(6) am y diffiniad o "prescribed". Diwygiwyd paragraff 1 o Atodlen 9 gan baragraff 89(2) o Atodlen 13 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 (p. 15). Diwygiwyd paragraff 2(2)(h) o Atodlen 9 gan adrannau 139 a 194(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42), a pharagraffau 1 a 44(1) a (3) o Atodlen 5 iddi a Rhan 2 o Atodlen 12 iddi, ac adran 8(1) a (3) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p. 17).

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru wedi hynny yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 2017/113 (Cy. 39), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/122 (Cy. 28) ac O.S. 2020/1250 (Cy. 283).

(3) Yn y paragraff o'r enw Ailbrisio, yn lle "2017" rhodder "2023" ac yn lle "2015" rhodder "2021".

(4) Yn y paragraff o'r enw Newid yn y gwerth ardrethol, hepgorer y geiriau "Os na fydd y trethdalwr a'r swyddog prisio yn cytuno ar y prisiad o fewn 3 mis i wneud y cynnig, bydd y mater yn cael ei gyfeirio gan y swyddog prisio fel apêl gan y cynigydd i Dribiwnlys Prisio Cymru."

(5) Yn y paragraff o'r enw Y lluosydd ardrethu annomestig, hepgorer y geiriau "ac, ac eithrio mewn blwyddyn ailbrisio, ni all godi fwy na chyfradd y cynnydd yn y mynegai prisiau manwerthu".

(6) Yn y paragraff o'r enw Rhyddhad ardrethi trosiannol—

(a) yn lle "2016" rhodder "2022";

(b) hepgorer y gair "bach";

(c) yn lle "2017" rhodder "2023".

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

5 Ionawr 2023

---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") (O.S. 2017/113 (Cy. 39)) yn darparu ar gyfer cynnwys hysbysiadau galw am dalu ardrethi annomestig a gyflwynir gan awdurdodau bilio yng Nghymru neu ar eu rhan.

Mae Atodlen 2 i Reoliadau 2017 yn rhagnodi'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yn y nodiadau esboniadol y mae rhaid iddynt fynd gyda hysbysiad galw am dalu.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 2 i Reoliadau 2017 o ganlyniad i'r ailbrisio ardrethu annomestig sy'n cael effaith o 1 Ebrill 2023 a'r rheolau rhagnodedig ar gyfer symiau a godir sy'n dod o fewn y disgrifiadau a ragnodir yn Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2022 (O.S. 2022/1350 (Cy. 272)).

Ystyriwyd cod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.